# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:03 - 10:49** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_16_07_2013&t=0&l=cy**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Dr Tymandra Blewett-Silcock, Prif Ddeisebwr** |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Pwyllgor. Nid oedd dim ymddiheuriadau.

## 2 P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Trafododd yr Aelodau y sesiwn dystiolaeth ar 2 Gorffennaf, a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwneud cais i gynnwys y deisebydd mewn trafodaethau â rhanddeiliaid ynghylch datblygu'r fframwaith a thynnu sylw at y materion a godwyd yn y dystiolaeth lafar.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1 P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i;

- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gael ei farn am y ddeiseb;
- ysgfrifennu at bob Bwrdd Iechyd Lleol yn holi am wybodaeth ychwanegol ynghylch darparu gwasanaethau; a
- gwneud cais am bapur briffio gan y gwasanaeth ymchwil.

### 3.2 P-04-495 Rhoi Terfyn ar Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i;

- ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i gael ei barn am y ddeiseb; ac
- ystyried a yw'r Pwyllgor am gymryd tystiolaeth lafar y tro nesaf y bydd yn ystyried y ddeiseb.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1 P-04-483 Polisi Cymraeg Clir / Plain English ar gyfer pob cyfathrebiad y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru

Ystyriodd y pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i;

- ysgrifennu at y rhanddeiliaid a ganlyn i gael eu barn am y mater
  - Plain English Campaign;
  - Uned Cymraeg Clir yng Nghanolfan Bedwyr;
- ysgrifennu at y deisebydd i gael ymateb llawnach i'r ohebiaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- unwaith y bydd yr ymatebion wedi dod i law, bydd y Cadeirydd yn ystyried ffurf ar gyfer sesiwn dystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref.

### 4.2 P-04-362 Gwasanaethau Ambiwlans yn Nhrefynwy

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor pan fydd yn gwneud penderfyniad yngylch ei Flaenraglen Waith, ac a fydd hyn yn cynnwys ymchwiliad i wasanaethau ambiwlans.

### 4.3 P-04-343 Atal dinistrio mwynderau ar dir comin - Ynys Môn

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn tynnu sylw at yr anawsterau y mae cymunedau lleol yn eu hwynebu o ran diogelu tir comin, ac yn gofyn pa gefnogaeth y gellir ei roi i'r cymunedau hynny.

Yn dibynnu ar y rhaglen ddigwyddiadau, cytunodd y Pwyllgor i ymgorffori ymweliad â Llangoed fel rhan o'r gweithgareddau allgymorth yn ystod tymor yr hydref.

### 4.4 P-04-385 Deiseb ar ryddhau balŵns a lanternau

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at;

- Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gofyn a fydd unrhyw newid agwedd yn dilyn y tân diweddar yn Smethwick; a'r

- Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn holi pa gamau y mae Llywodraeth y DU yn eu cymryd ar y mater.

**4.5 P-03-240 Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynllun gwella'r A40 Llanddewi – Penblewin.

**4.6 P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd**

Datganodd y Cadeirydd a Russell George fuddiant yn y ddeiseb hon.

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i;

- aros am ganfyddiadau'r adolygiad o opsiynau; ac
- ysgrifennu at y deisebydd yn ei hysbysu o ddatganiad diweddar Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

**4.7 P-04-393 Grŵp Gweithredu Ffordd Osgoi Llanymynech a Phant**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ailystyried:

- y ddeiseb yng nghyd-destun papur briffio y Gwasanaeth Ymchwil; a'r
- llythyr a anfonwyd at Weindog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gael rhagor o wybodaeth ynghylch unrhyw faes na roddir ateb llawn yn ei gylch yn ei hymateb.

**4.8 P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru**

Datganodd y Cadeirydd fuddiant yn y ddeiseb.

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gynnwys ymweliad â'r safle fel rhan o ymweliadau'r hydref.

**4.9 P-04-422: Ffracio**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chutunodd i;

- ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i holi faint o swyddogion sy'n 'arbenigwyr' ar ffracio a lefel yr arbenigedd sydd ar gael i Lywodraeth Cymru;
- ysgrifennu at y Pwyllgor Amgylchedd a chynaliadwyedd yn holi am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y sesiwn dystiolaeth ddiweddar ar nwy anghonfensiynol; ac
- ysgrifennu at y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn tynnu sylw at ystyriaethau'r Pwyllgor o'r materion hyn.

**4.10 P-04-461 Achub Pwll Padlo Pontypridd**

Datganodd y Cadeirydd fuddiant yn y ddeiseb.

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb am fod y pwll wedi cael ei ystyried ar gyfer ei restru ar dair achlysur ac nad oedd wedi bodloni'r meini prawf.

**4.11 P-04-480 Mynd i'r afael â Safon Tai Myfyrwyr yn y Sector Preifat**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i;

- Ysgrifennu at y rhanddeiliaid a ganlyn i gael eu barn am y mater:
  - Accreditation Network UK
  - Addysg Uwch Cymru
  - Association of Letting and Management Agents
  - Cartrefi Cymunedol Cymru
  - CLlLC / Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg
  - Cymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl
  - Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid
  - Cyngor ar Bopeth
  - Cyngor Ceredigion
  - Cynllun Achredu Landlordiaid
  - Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
  - Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
  - Shelter Cymru
  - Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
  - Y Sefydliad Tai Siartredig; ac
  - ymgynghoriad ysgrifenedig llawn ar agor i'r cyhoedd, yn canolbwyntio ar ymgysylltu â myfyrwyr
- ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio yn tynnu sylw at bryderon y deisebwyr, yn arbennig o ran yr amser a roddwyd i'r Bil Tai; a
- threfnu sesiwn dystiolaeth lafar unwaith y bydd yr ymatebion wedi dod i law.

**4.12 Gwariant a Refeniw'r Llywodraeth yng Nghymru**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid yn tynnu sylw at ohebiaeth y deisebydd a gofyn a fydd gwybodaeth refeniw yn cael ei rhyddhau.

**4.13 P-04-478 Pecyn gwybodaeth syml i bawb yng Nghymru yn esbonio sut y gallant sefyll fel ymgeisydd**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i;

  - ysgrifennu at y rhanddeiliaid a ganlyn i gael eu barn am y mater:
    CLlLC;
  - Cymdeithas Cynghorwyr;
  - Un Llais Cymru;
  - Y Comisiwn Etholiadol;
  - Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol;
  - ceisio cael eglurder ynghylch a fyddai Comisiwn y Cynulliad yn gallu gwneud sylw ac, os felly, beth yw ei farn; a
  - phennaeth staff pob plaid wleidyddol sydd wedi cofrestru yng Nghymru

**4.14 P-04-482 Hysbysfyrddau cyhoeddus ar draws Cymru i roi gwybod i'r cyhoedd pwy yw eu cynrychiolwyr gwleidyddol**

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i;

  - ysgrifennu at y rhanddeiliaid a ganlyn i gael eu barn am y mater:
    CLlLC;
  - Un Llais Cymru;
  - Y Comisiwn Etholiadol;
  - Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol; a
  - cheisio cael eglurder ynghylch a fyddai Comisiwn y Cynulliad yn gallu gwneud sylw ac, os felly, beth yw ei farn.

## 5 P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig: Sesiwn dystiolaeth

Atebodd y Dr Tymandra Blewett-Silcock gwestiynau gan y Pwyllgor.

## 6 P-04-452 Hawliau Cyfartal i Bobl Ifanc Tiwb-borthedig: Trafod y sesiwn dystiolaeth

Trafododd yr Aelodau y sesiwn dystiolaeth a chytunwyd i;

- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn a fydd adolygiad o Daliadau Uniongyrchol;
- ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn tynnu sylwa at y materion cyn cynnal gwaith craffu pellach ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- casglu rhagor o astudiaethau achos am y mater dan sylw; ac
- ystyried a ddylid cymryd rhagor o dystiolaeth yn ystod tymor yr hydref.